# Asesiad Strwythuredig 2021 (Cam Un) – Trefniadau Cynllunio Gweithredol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2483A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel rhan o'r gwaith a gyflawnir/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti o ran yr adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 4

Adroddiad manwl

Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21 6

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 7

Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol 9

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau cam un Asesiad Strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2021 ar y trefniadau cynllunio gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi'i fwriadu i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd y cynlluniau hyn ar gyfer y cyfnod 2020-2023, i'w cymeradwyo. Ar gyfer y Bwrdd Iechyd, roedd hyn ar ffurf cynllun blynyddol ar gyfer 2020-21, a osodwyd yng nghyd-destun y cyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, ataliodd Llywodraeth Cymru’r broses ar gyfer cymeradwyo’r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i alluogi cyrff iechyd i ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achoswyd gan bandemig COVID-19.

3 Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gylchoedd cynllunio byrrach i gyrff iechyd ar gyfer 2020-21. Roedd canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd lunio cynllun chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol ar gyfer chwarteri tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Mae'r fframwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cynnwys cynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd i roi arweiniad o ran eu hymateb parhaus i'r pandemig yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio'r UE. Mae angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn yr adroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2020 gwnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad y cynllun gweithredol ar gyfer chwarteri tri a phedwar 2020-21.

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom **fod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar gyfer datblygu a monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol sy'n cael eu hategu gan fodelu data effeithiol er mwyn gallu ymateb i amgylchiadau sy'n newid.**

7 Cyflwynwyd Cynllun Chwarteri 3-4 y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru mewn da bryd, yn cynnwys yr holl feysydd gofynnol o fewn y canllawiau cynllunio a bu’n destun gwaith craffu gan y Bwrdd a chafodd gymeradwyaeth briodol gan y Bwrdd.

8 Mae dull cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ac yn seiliedig ar fodelu data effeithiol i alluogi ymatebion hyblyg i amgylchiadau sy'n newid.

9 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi camau gweithredu a cherrig milltir clir ar gyfer cyflawni ei Gynllun Chwarteri 3-4, a chaiff cynnydd y cyflawniad ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion yn seiliedig ar ein gwaith cam un Asesiad Strwythuredig 2021.

# Adroddiad manwl

## Cwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21

11 Ystyriodd ein gwaith gwmpas a chynnwys Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar (Cynllun Chwarteri 3-4) y Bwrdd Iechyd yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

12 Gwelsom **fod Cynllun Chwarteri 3-4 y Bwrdd Iechyd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn da bryd, yn cynnwys yr holl feysydd gofynnol o fewn y canllawiau cynllunio a bu'n destun gwaith craffu gan y Bwrdd a chafod gymeradwyaeth briodol gan y Bwrdd.**

13 Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ei Gynllun Chwarteri 3-4 ynghyd â'u Set Ddata Sylfaenol  i Lywodraeth Cymru mewn da bryd. Oherwydd amseru, cymeradwywyd y cynllun gan Gam Gweithredu'r Cadeirydd cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar 19 Hydref 2020. Cafodd y cynllun ei gadarnhau wedyn gan y Bwrdd ar 26 mis Tachwedd 2020.

14 Nododd Llywodraeth Cymru ei gofynion yn Fframwaith Gweithredu GIG Cymru ar gyfer Chwarteri 3 a 4 (2020-21) a gyflwynwyd i gyrff y GIG ar 24 Medi 2020. Gan ragweld yr angen i weithredu'n gyflym i lunio cynllun chwe mis o fewn yr amserlenni a bennwyd, dechreuodd y Bwrdd Iechyd ar ei broses gynllunio ym mis Gorffennaf i lunio'r cynllun, gan ganolbwyntio ar adfer a chynnal gwasanaethau hanfodol.

15 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn gynhwysfawr ac yn datblygu'r cynlluniau chwarterol blaenorol gan roi ystyriaeth dda i'r camau a gymerwyd hyd yma. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 hefyd yn nodi'n glir sut y byddai'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymateb i'r galw parhaus yn sgil COVID-19, y galw yn sgil bob derbyniad brys arall a chyflawni gwasanaethau hanfodol. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn cyd-fynd â Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cleifion Allanol y Bwrdd Iechyd a hefyd y cerrig milltir cyflawni cenedlaethol wedi'u hadnewyddu ar gyfer y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Mae'r Cynllun Chwarteri 3-4 yn cyfeirio at y pedwar niwed[1] ond mae hefyd yn cydnabod yr heriau i'r gweithlu a fyddai'n cael eu hwynebu pe bai lefel y galw o COVID-19 yn uwch na brig y lefelau a ragwelir.

[1] Roedd fframwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd ystyried pedwar math o niwed yn y cynlluniau a mynd i'r afael â phob un ohonynt mewn ffordd gytbwys. Y pedwar math o niwed yw: niwed COVID-19 ei hun, niwed yn deillio o system y GIG a gofal cymdeithasol sydd wedi'i llethu, niwed yn sgil lleihau gweithgaredd nad yw'n ymwneud â COVID-19 a niwed yn sgil camau gweithredu cymdeithasol/cyfyngiadau symud ehangach.

16 Roedd pob aelod annibynnol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Chwarteri 3-4 drwy sesiynau briffio aelodau'r bwrdd, a rhoddwyd cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau cyn i'r cynllun gael ei gwblhau. Hefyd, cyflwynwyd papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y Cynllun Chwarteri 3-4 i'r Bwrdd ym mis Medi 2020.

17 Cafodd Cynllun Chwarteri 3-4 y Bwrdd Iechyd adborth llafar cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru, gan nodi ei fod wedi dangos bod cydnawsedd da rhwng y gweithlu â'r adnoddau ariannol sydd ar gael, i gyflawni gwasanaethau, ac asesiad agored a realistig o'r gallu i gyflawni gyda chynlluniau wrth gefn clir. Nododd yr adborth fod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r lefel uchaf o ran cwblhau ei Set Ddata Sylfaenol, er gwaethaf anawsterau ynghylch cael rhywfaint o'r data nad yw'n cael ei gasglu fel mater o drefn.

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

18 Ystyriodd ein gwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu Cynllun Chwarteri 3-4 i gefnogi ei ymateb parhaus i COVID-19, cynnal gwasanaethau hanfodol ac ailddechrau gwasanaethau mwy arferol.

19 Gwelsom **fod dull cynllunio gweithredol y Bwrdd Iechyd yn gadarn ac yn seiliedig ar fodelu data effeithiol i alluogi ymateb yn hyblyg i amgylchiadau sy'n newid.**

20 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn datblygu'r ddau gynllun chwarterol blaenorol, a'r broses a ddefnyddiwyd i'w datblygu. Er bod cynlluniau chwarteri un a dau yn canolbwyntio ar amserlen fyrrach, dysgodd y Bwrdd Iechyd o'r dull a ddefnyddiwyd a datblygodd strwythur ailosod ac adfer, gyda nifer o ffrydiau gwaith sylfaenol. Roedd y broses a ddefnyddiwyd hefyd yn adlewyrchu'r angen i gydbwyso'r pedwar niwed.

21 Mae'r broses gynllunio wedi newid yn sylweddol yn ystod y pandemig, er mwyn tynnu pwysau oddi ar dimau gweithredol ac i alluogi gweithredu cyflym i fodloni amserlenni Llywodraeth Cymru. Gwnaethpwyd aelodau'r tîm cynllunio yn gydnaws â thimau gweithredol i ddatblygu'r cynllun a gwnaethant ddefnyddio templed safonol. Datblygwyd cynlluniau sail cynllun Chwarteri 3-4 hefyd gyda chyfranogiad y tîm cynllunio i sicrhau eu bod yn cael eu cyfannu'n briodol ac yn gyson.

22 Mae'r Cyfarwyddwr Strategaeth wedi goruchwylio'r broses gynllunio, a chytunwyd ar gynllun Chwarteri 3-4 a'i gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gweithredol. Darparwyd gwaith craffu ar gynllun Chwarteri 3-4 a'i herio gan y Bwrdd. Er bod y dull gweithredu yn parhau i fod yn llai manwl ar gyfer cynllun Chwarteri 3-4, roedd y broses gynllunio yn drylwyr

23 Cafodd Cynllun Tymhorol y Gaeaf y Bwrdd Iechyd ei gyfuno â'r cynllun a chymeradwywyd yr elfen hon drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r grŵp cymunedol amlasiantaethol a sefydlwyd fel rhan o strwythur gorchymyn y Bwrdd

Iechyd. Sefydlwyd y grŵp hwn mewn ymateb i'r pandemig ac mae'n cynnwys aelodau'r trydydd sector ac awdurdodau lleol. Mae gwaith partneriaeth hefyd wedi'i ymestyn i fyrddau iechyd eraill, sef Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Chaerdydd a'r Fro, a oedd hefyd yn rhan o'r broses o gymeradwyo adrannau o'r cynllun pryd yr oedd trefniadau cydweithio.

24 Yn ystod Chwarter dau, gwnaeth y Bwrdd Iechyd waith sylweddol i gasglu'r hyn a ddysgwyd o'r ffyrdd newydd o weithio a ddefnyddiwyd yn ystod rhan gyntaf y pandemig. Cafodd hyn ei gasglu yn Adroddiad 'Dealltwriaeth' y Bwrdd Iechyd, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2020. Gwnaeth yr hyn a ddysgwyd o ffyrdd newydd o weithio lywio Cynllun Chwarteri 3-4. Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwaith i ystyried sut mae datblygiadau gwasanaeth a weithredwyd i helpu i ymateb i COVID-19 wedi bod o gymorth wrth gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn ei Gynllun Gwasanaethau Clinigol 2019-2024, ac o ganlyniad, eu perthnasedd o ran y cynllun tymor hwy. Mae'r gwaith hwn wedi llywio'r broses o ddatblygu'r blaenoriaethau yng Nghynllun Blynyddol 2021-22.

25 Mae'r angen i wneud penderfyniadau ystwyth er mwyn gwneud newidiadau angenrheidiol i wasanaethau wedi golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu ymgysylltu'n llawn â staff a defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, sefydlwyd nifer fach o sesiynau ymgysylltu byr gyda staff y Cyngor Iechyd Cymuned a'r Bwrdd Iechyd ar gamau cynnar datblygu Cynllun Chwarteri 3-4. Mae ymgysylltu parhaus bob pythefnos â'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi gweithio'n dda ac roedd yn seiliedig ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chydnabyddiaeth bod angen i'r Bwrdd Iechyd ailgynllunio gwasanaethau'n gyflym. Os yw'r Bwrdd Iechyd yn ystyried gwneud unrhyw un o'r newidiadau i'r gwasanaeth yn barhaol, mae cytundeb y byddai'r rhain yn destun ymgynghoriad Cyngor Iechyd Cymuned.

26 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 wedi'i gefnogi gan fodelu manwl i ddeall y gofynion ar gyfer capasiti craidd/ymchwydd/uwch ymchwydd a gofal critigol gan ddefnyddio'r senarios cenedlaethol fel sail ar gyfer cynllunio. Dangosodd y modelu hwn, er bod gan y Bwrdd Iechyd y gallu corfforol i ymateb i'r galw, y byddai heriau sylweddol yn y gweithlu o ran gallu i weithredu yn ystod uwch ymchwydd. Mae Cynllun Defnyddio'r Gweithlu wedi'i ddatblygu i alluogi symud staff i helpu i ddiwallu anghenion critigol a brys petai angen, ond mae hyn yn dibynnu ar y Bwrdd Iechyd yn addasu rhai gwasanaethau am gyfnod i gefnogi'r ymchwydd.

27 Mae modelu manwl hefyd wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i ddeall y galw posibl ar y system gofal heb ei drefnu yn ystod y gaeaf, ac mae'r modelu wedi llywio Cynllun Tymhorol y Gaeaf. Mae meddygon teulu Gwasanaeth y Bwrdd Iechyd hefyd wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i wella amcangyfrifon data'r gweithlu (fel swyddi gwag, gwyliau blynyddol, salwch ac absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID a defnyddio'r data hwn i fodelu lefel y gofal y gellir ei staffio'n ddiogel. Mae modelu'r Bwrdd Iechyd wedi ei alluogi i wneud mwy o benderfyniadau ar sail gwybodaeth, un enghraifft yw pa un a oedd angen agor ysbytai maes yn ystod yr ail don.

28 Er bod Cynllun Chwarteri 3-4 wedi'i ysgrifennu ar adeg benodol, roedd y cynllun yn hyblyg ac mae'r modelu data sylfaenol wedi galluogi gwneud penderfyniadau ar

sail gwybodaeth a hyblyg sy'n adlewyrchu amgylchiadau newidiol ac anghenion gweithredol. Er enghraifft, gostyngwyd o reidrwydd y gallu a'r capasiti i gyflawni llawdriniaeth ddewisol i alluogi'r Bwrdd Iechyd i ymateb i ail frig COVID-19, a oedd yn gynharach na'r hyn a ragwelwyd gan fodelu cenedlaethol.

## Trefniadau ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol

29 Ystyriodd ein gwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar y modd y cyflawnir Cynllun Chwarteri 3-4.

30 Gwelsom fod **y Bwrdd Iechyd wedi nodi camau gweithredu a cherrig milltir clir ar gyfer cyflawni ei Gynllun Chwarteri 3-4, a bod cynnydd y cyflawniad yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.**

31 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi'n glir y camau gweithredu a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae'r rhain wedi'u coladu i lunio traciwr cynllun gweithredol a ddefnyddir i fonitro a mesur y cyflawniad.

32 Caiff cyflawni'r camau gweithredu ei fonitro a'i adrodd wrth y Bwrdd Gweithredol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Mae'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd yn derbyn adroddiad ar gynnydd y cynllun gweithredol bob chwarter.

33 Mae adroddiad ar gynnydd y cynllun gweithredol yn rhoi crynodeb lefel uchel o berfformiad o'i gymharu â chamau gweithredu ac yn dangos yn glir lle mae camau wedi'u cymryd, a lle nad yw'r cyflawniad yn cyrraedd y nod, disgrifiad o'r camau lliniaru a gymerwyd. Mae hyn yn cael ei ategu gan draciwr y cynllun gweithredol sy'n rhoi statws Coch Melyn Gwyrdd i gyflawniad, ac mae'n cysylltu pob un o'r camau gweithredu â chyflawniad o'i gymharu ag un o'r pedwar niwed. Mae adroddiad arall yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r cynnydd hyd yma gyda chyfres o siartiau a thablau i roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd bod cynnydd.

34 Oherwydd pwysau cyflawni o ganlyniad i ail don COVID-19, cafodd y trefniadau adrodd eu gohirio dros dro yn ystod mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.